CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID

GEN-LD7228 – Cyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2010

Cefndir:

Mae Rheol Sefydlog 27 yn datgan:

27.7 Heb fod yn hwyrach na 24 Medi ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Cynulliad gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a symiau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd wedyn neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru.

27.8 Rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried cyllideb ddrafft y Comisiwn a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn ei chylch heb fod yn hwyrach na thair wythnos ar ôl iddi gael ei gosod gerbron y Cynulliad...

Ystyriaeth

1. Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid Gyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2008. Roedd y gyllideb ddrafft wedi'i gosod ar 24 Medi 2007.

2. Yn y cyfarfod, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth:

- Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas – Llywydd, Cadeirydd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Claire Clancy – Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
- Dianne Bevan – Prif Swyddog Gweithredu
- Steven O'Donoghue – Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad

Cefndir

3. Y llynedd, roedd Comisiwn y Cynulliad yn wynebu paratoi cyllideb ar gyfer sefydliad newydd ar adeg pan oedd natur esblygol gwaith y Cynulliad yn debygol o newid y galwadau am wasanaethau oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad. Nododd y Pwyllgor Cyllid yr anawsterau o ran darparu rhagolygon o'r wybodaeth gyfyngedig a oedd ar gael.

4. Croesawodd y Pwyllgor ddull y Comisiwn o fynd ati i fanylu ar ei nodau strategol, a'r ffaith fod y gyllideb ddrafft wedi'i llunio i gefnogi'r nodau hyn. Croesawodd y Pwyllgor hefyd ymrwymiad y Comisiwn i fod yn agored yn ei berthynas â'r Pwyllgor, a'r ffaith ei fod wedi cytuno i ddarparu adroddiadau cyfnodol ar wariant ac ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn.

5. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn ddiolchgar i'r Comisiwn am y cyflwyniad cyllideb eglur a llawn gwybodaeth eleni. Yn anad dim, mae dyrannu cyllideb 2009-10 yn ôl unedau busnes ac yn ôl nodau strategol yn darparu llawer mwy o wybodaeth i'r Cynulliad a chyhoedd Cymru am sut bydd yr adnodd cyffredinol a ddyrennir i'n sefydliad democrataidd ein hunain yn cael ei ddefnyddio. Mae hyn yn gosod esiampl dda i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn ddiolchgar i'r tystion am yr atebion agored a thryloyw a roddwyd mewn ymateb i gwestiynau Aelodau.

Cyllideb gyffredinol 2009-10

6. Ar gyfer 2009-10, mae Comisiwn y Cynulliad yn cynnig cynnydd o 3.4% i'w gyllideb adnoddau awdurdodedig 2008-09. Mae angen ystyried y cynnydd hwn yng nghyd-destun y gyfradd chwyddiant gyfredol, sef 4.7% ym mis Awst 2008 – mae'r gyfradd ar gyfer rhai costau penodol, fel tanwydd, yn uwch o lawer. Trwy gyd-ddigwyddiad, mae Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 wedi darparu cynnydd o 4.8% i gydran Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) y Cyfanswm Gwariant a Reolir ar gyfer cyllideb bloc Cymru dros ddyraniad 2008-09. Wrth baratoi ar gyfer ei gyllideb, roedd y Comisiwn wedi defnyddio cyfradd o 2.5% ar gyfer chwyddiant prisiau nwyddau a gwasanaethau a gaffaelir.

7. Dywedodd y tystion wrth y Pwyllgor Cyllid fod rhyw £28m o'r gyllideb arfaethedig ar gyfer cyflogau, ac mae tâl staff yn ddarostyngedig i gynnig tâl tair blynedd ac felly'n hysbys heb unrhyw amheuaeth. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn darparu rhywfaint o sicrwydd bod y Comisiwn yn gallu byw o fewn ei gyllideb arfaethedig. Mae paragraff 17 o'r cyflwyniad cyllideb yn darparu gwybodaeth bellach ar ffurf dadansoddiad o'r cynnydd arfaethedig ac arbedion i wneud iawn am hyn, gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd ychwanegol o £250,000.

8. Er i'r tystion roi sicrhad y gall y Comisiwn fyw o fewn ei gyllideb arfaethedig, mae'r Pwyllgor Cyllid yn dal i bryderu ynghylch ei allu i wneud hyn heb ddirywiad mewn safonau gwasanaeth neu heb osod baich afresymol ar staff. Er ei bod yn bosibl y gallai'r gyfradd chwyddiant ddisgyn yn ystod 2009, mae cyfraddau chwyddiant cyfredol na ragwelwyd 12 mis yn ôl wedi effeithio ar waelodlin 2008-09.

9. Mae'r Pwyllgor Cyllid felly'n annog Comisiwn y Cynulliad i ddefnyddio'i system rheoli perfformiad i'r eithaf i fonitro costau a safonau gwasanaeth yn ofalus ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a blynyddoedd ariannol dilynol, ac i rybuddio'r Pwyllgor yn gynnar os daw unrhyw anawsterau i'w ran.

10. Dywedwyd wrth y Pwyllgor[1] bod gwaith wedi dangos y posibilrwydd o arbed 25% ar gostau ynni yn y Senedd, ac roedd hyn o ddiddordeb iddo gan fod y datganiad hwn, i bob golwg, yn groes i'r disgwyliadau o ystyried dyluniad adeilad y Cynulliad a'i lefel uchel o effeithlonrwydd ynni. **Byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o wybodaeth am sut y bwriedir cyflawni'r arbedion hyn.**

[1] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid 2 Hydref 2008, 174

Arbedion Effeithlonrwydd

11. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ac yn cydnabod ymrwymiad Comisiwn y Cynulliad i wneud yr arbedion effeithlonrwydd y cyfeiriwyd atynt uchod. Fodd bynnag, mae'n nodi bod y rhain ar ffurf ymrwymiad i darged effeithlonrwydd arian parod[2] o £0.25m yn hytrach na rhaglen o arbedion sydd wedi'u dynodi ymlaen llaw. Gallai hyn olygu hyblygrwydd cyfyngedig os daw'n amhosibl cynnal lefel ac ansawdd gwasanaethau ag adnoddau ar y lefel is. I gymhlethu'r mater hwn, mae'r Pwyllgor yn nodi bod disgwyl[3] nid yn unig cynnal gwasanaethau ar y lefel bresennol ond hefyd gweld twf gwasanaethau.

12. **Byddai'r Pwyllgor yn croesawu nodyn maes o law ar sut y cyflawnwyd yr arbedion, ac ar ba lefel, a sut mae Comisiwn y Cynulliad wedi bodloni ei hun bod gwasanaethau wedi'u cynnal a'u datblygu**.

13. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn pryderu ynghylch effaith arbedion effeithlonrwydd ar staff Comisiwn y Cynulliad sydd, ym marn Aelodau, eisoes dan bwysau sylweddol. Tra'i bod yn bwysig cadw'r angen am unrhyw swydd dan sylw yn barhaus, nid yw'r Pwyllgor yn argyhoeddedig ynghylch buddion polisi hollgynhwysfawr sy'n golygu adolygu pob swydd pan ddaw'n wag[4]. Nid yn unig yw hyn, ynddo'i hun ac ohono'i hun, yn creu llwyth gwaith ychwanegol, ond bydd yr oedi canlyniadol wrth lenwi swyddi'n ychwanegu at y pwysau ar y staff presennol a gallai effeithio ar forâl.

Codi Ymwybyddiaeth

14. Nododd y Pwyllgor fod ychydig dros chwarter[5] y gwariant ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer un o Nodau Strategol Comisiwn y Cynulliad, sef "Hyrwyddo ac ehangu cyfranogiad pobl mewn datganoli" ac, yn wir, bod yr un eitem twf mwyaf yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ar ôl y cyfarfod ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd. Dywedodd y Llywydd wrth y Pwyllgor fod hyn yn ofyniad statudol. Mae'r Pwyllgor yn cymryd bod y Llywydd yn cyfeirio at Adran 5 yr Atodlen i Ddeddf Llywodraeth Cymru, 2006 sy'n grymuso Comisiwn y Cynulliad i 'hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd' o'r system ar gyfer ethol aelodau ac o lywodraeth ddatganoledig. **Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n cynorthwyo tryloywder pe bai disgrifiad mwy manwl gywir o'r amcan hwn.**

TGCh a Chymorth Aelodau'r Cynulliad

15. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi bod Comisiwn y Cynulliad yn ymgymryd ag adolygiad pwysig o wasanaethau sy'n gysylltiedig â TGCh, a'i fod hefyd wedi sefydlu panel adolygu annibynnol i archwilio cymorth i Aelodau'r Cynulliad. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yng nghyllideb 2009-10 ar gyfer costau tebygol yn sgil y ddau adolygiad hyn, gan nad yw'n bosibl eu hamcangyfrif yn rhesymol mor gynnar yn y broses.

---

[2] FIN(3) 12-08 (t5) Cyllid drafft Comisiwn y Cynulliad 2009-10, Paragraff 17
[3] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid 2 Hydref 2008, 163
[4] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid 2 Hydref 2008, 183
[5] FIN(3) 12-08 (t5) Cyllid drafft Comisiwn y Cynulliad 2009-10, Atodiad 2

16. Mae’r Pwyllgor Cyllid yn gofyn bod y Comisiwn yn rhoi syniad o unrhyw gostau ychwanegol tebygol yn sgil yr adolygiadau hyn, cyn gynted ag y deuant yn hysbys. Byddai’r Pwyllgor yn croesawu’n enwedig copi o adroddiad yr adolygiad ar brosiect i-change er mwyn i Aelodau allu deall a chraffu ar y buddion canfyddedig a ddisgwylir yn gyfnewid am wariant ychwanegol.

Casgliad

17. Mae’r Pwyllgor Cyllid yn croesawu ymrwymiad Comisiwn y Cynulliad i fod yn agored ac yn dryloyw. Mae hefyd yn cydnabod ac yn croesawu ei ffocws ar gyflenwi gwerth am arian a defnyddio’i adnoddau mewn modd mor effeithlon â phosibl. Fodd bynnag, mae’r Comisiwn yn wynebu blwyddyn anodd gyda chostau sy’n codi, sefyllfa ariannol anodd a galwadau cynyddol ar staff. Mae’r Pwyllgor Cyllid yn pryderu bod y Comisiwn yn cynllunio lefelau sylweddol o arbedion effeithlonrwydd ond nad yw’n gallu dangos sut bydd y rhain yn cael eu cyflawni. O’r herwydd, mae’n pryderu y gallai’r rhain effeithio’n niweidiol ar ansawdd a lefel gwasanaethau a ddarperir i Aelodau, ac ar staff y Comisiwn sydd eisoes dan bwysau sylweddol. Mae’r Pwyllgor hefyd yn pryderu na fydd y ddarpariaeth ar gyfer costau ynni o bosibl yn ddigonol.

18. Mae’r Pwyllgor yn gobeithio y bydd Comisiwn y Cynulliad yn egluro’i Nod Strategol o ran hyrwyddo ymwybyddiaeth o’r systemau ar gyfer ethol y Cynulliad ac o Ddatganoli. Mae’n edrych ymlaen at ystyried, maes o law, ei gynigion ar gyfer TGCh yng nghyd-destun Cyllideb Atodol.

Angela Burns AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid